COVID-19 Update: 30th April

In the last Cardiff Council COVID-19 update of the month: how the Council is addressing digital deprivation so that children and young people can continue to access online learning; “you are not alone” - the Lord Mayor’s important domestic violence message; and delivering PPE.

Cardiff addresses digital deprivation

Cardiff Council has developed a range of ways to address the issue of digital deprivation so that children and young people can continue to access online learning, whilst schools are closed due to COVID-19.

The Council has been gathering information for recently on how many pupils require digital support which has been carried out using a variety of methods including phone calls, letters and utilising school’s existing electronic parent communication platforms, usually via mobile phones.

Cardiff’s schools know their families well and many of them already have a very good idea of what access their pupils have at home, with some already providing devices to digitally disadvantaged pupils.

In addition, some schools have gone above and beyond to ensure pupils can continue to learn at home by printing off work for families without access to devices and/or printers as well delivering resources including books and stationary.

Cardiff has placed orders for 1000 chrome books in addition to the 3000 already purchased via the Education Technology Project Fund. This is in addition to repurposing existing school equipment. A dedicated project team has been established to deliver the new scheme which will supply both end user devices and MiFi broadband devices to all those pupils who are digitally disadvantaged.

Importantly, Cardiff intends to make this a long term solution to tackling the issue of digital deprivation, following the lockdown.

Lord Mayor’s important domestic violence message – “You are not alone”

Help is available for those experiencing domestic abuse & sexual violence during the COVID-19 Coronavirus crisis.

Watch the Lord Mayor of Cardiff, Cllr Dan De’Ath on the support available from one of his chosen charities, Welsh Women’s Aid:
https://www.youtube.com/watch?v=JlKkUAcSFxk

To find out more visit:
www.welshwomensaid.org

Or call the Live Fear Free Helpline on 0808 80 10 800.

Teams from Cardiff Council support the Vale of Glamorgan Council with PPE deliveries

To date, the Council has delivered over 1.6m items of PPE in Cardiff.

Also, staff from Cardiff Council's Hubs and Libraries Services have helped The Vale of Glamorgan Council deliver supplies of PPE equipment to their Civic Offices using Cardiff drivers.

Mobile library driver Mike Watkins was involved in the drop off where Rob Sadler, the Hubs Health and Wellbeing Officer handed them over to Carl Culverwell, an Emergency Planning Officer for the Vale.

The PPE equipment is vital for the Vale of Glamorgan's key workers in Social Care & Domiciliary Care Homes both residential and nursing.

Diweddariad COVID-19: 30 Ebrill

Dyma'r crynodeb diweddaraf o'r diwrnod gan Gyngor Caerdydd, sy'n cynnwys: Caerdydd yn mynd i'r afael ag amddifadedd digidol; yr Arglwydd Faer yn cyhoeddi neges pwysig ynglŷn a thrais domestig - "Nid ydych chi ar eich pen eich hun"; ac timau o Gyngor Caerdydd yn cefnogi Cyngor Bro Morgannwg â danfoniadau PPE.

Caerdydd yn mynd i'r afael ag amddifadedd digidol

Mae Cyngor Caerdydd wedi datblygu amrywiaeth o ffyrdd o fynd i'r afael ag amddifadedd digidol, er mwyn i blant a phobl ifanc barhau i fanteisio ar ddysgu ar-lein, tra bo ysgolion ar gau oherwydd COVID-19.

Mae'r Cyngor wedi bod yn casglu gwybodaeth yn ddiweddar ar faint o ddisgyblion sydd angen cymorth digidol. Mae'r gwaith hwn wedi ei wneud mewn amryw ffordd, gan gynnwys galwadau ffôn, llythyron a llwyfannau cyfathrebu electronig presennol ysgolion, drwy ffonau symudol fel arfer.

Mae ysgolion Caerdydd yn adnabod eu teuluoedd yn dda ac mae gan lawer ohonynt syniad da iawn eisoes ynghylch pa fynediad sydd gan eu disgyblion gartref, gyda rhai eisoes yn darparu dyfeisiau i ddisgyblion sydd dan anfantais ddigidol.

Yn ogystal, mae rhai ysgolion wedi mynd y tu hwnt i hyn i sicrhau y gall disgyblion barhau i ddysgu gartref, drwy argraffu gwaith i deuluoedd sydd heb fynediad at ddyfeisiau a/neu argraffwyr, a darparu adnoddau gan gynnwys llyfrau a deunyddiau ysgrifennu.

Mae Caerdydd wedi archebu 1000 o lyfrau Chrome yn ogystal â'r 3000 sydd eisoes wedi'u prynu drwy Gronfa Project Technoleg Addysg. Mae hyn yn ychwanegol at roi cyfarpar presennol yr ysgol ar waith at ddibenion gwahanol. Mae tîm project penodol

wedi'i greu i gyflwyno'r cynllun newydd a fydd yn darparu dyfeisiau defnyddwyr a band eang MiFi i'r holl ddisgyblion hynny sydd o dan anfantais ddigidol.

Yn bwysig iawn, mae Caerdydd yn bwriadu gwneud hyn yn ateb hirdymor i fynd i'r afael ag amddifadedd digidol, wedi'r cyfnod cloi.

Yr Arglwydd Faer yn cyhoeddi neges pwysig ynglŷn a thrais domestig - "Nid ydych chi ar eich pen eich hun"

Mae cymorth ar gael i'r rhai sy'n profi cam-drin domestig a thrais rhywiol yn ystod yr argyfwng Coronafeirws COVID-19.

Gwyliwch Arglwydd Faer Caerdydd, Y Cyng Dan De'Ath ar y gefnogaeth sydd ar gael gan un o'i elusennau dewisol, Cymorth I Ferched Cymru:
https://www.youtube.com/watch?v=JlKkUAcSFxk

Am fwy ewch i:
https://www.welshwomensaid.org.uk/cy/

Neu Ffoniwch Llinell Gymorth Byw Heb Ofn ar 0808 80 10 800.

Timau o Gyngor Caerdydd yn cefnogi Cyngor Bro Morgannwg â danfoniadau PPE

Mae staff o Hybiau a Gwasanaethau Cymunedol Cyngor Caerdydd wedi bod yn helpu Cyngor Bro Morgannwg i ddosbarthu Cyfarpar Diogelu Personol (PPE) i'w Swyddfeydd Dinesig gan ddefnyddio gyrwyr Caerdydd.

Bu'r Gyrrwr Llyfrgell Symudol, Mike Watkins yn rhan o'r gwaith dosbarthu, lle gwnaeth Rob Sadler, Swyddog Iechyd a Lles yr Hybiau, drosglwyddo'r offer i Carl Culverwell, Swyddog Cynllunio Brys ar gyfer y Fro.

Mae'r PPE yn hanfodol ar gyfer gweithwyr allweddol Bro Morgannwg mewn Gofal Cymdeithasol a Chartrefi Gofal Cartref - rhai preswyl a nyrsio.